**6.1** Ceisiadau'n Tynnu'n Groes Departure Applications


Rhif y Cais: **34C553A** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**St Malo (Llangefni) Ltd**

**Cais amlinellol ar gyfer datblygiad trigiannol yn cynnwys cyfleuster gofal ychwanegol, priffordd a rhwydwaith cysylltiol yn/Outline application for residential development including extra care facility, highway and associated infrastructure at**

**Ty'n Coed, Llangefni**



**Pwyllgor Cynllunio: 03/12/2014**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (MTD)**

**Argymhelliad:**

Gohirio.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

I roi amser ar gyfer derbyn ymatebion ymgynghori pellach ynglŷn ag ail-ymweld â sgrinio'r cais sydd wedi ei wneud ar argymhelliad yr adain gyfreithiol.

**6.2** Gweddill y Ceisiadau Remainder Applications


Rhif y Cais: **38C301A/EIA/RE** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Airvolution Energy (Plas Bodewryd) Limited**

**Cais llawn i godi dau dwrbin wynt 4.6MW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 59m, diamedr rotor hyd at 71m, a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 92.5m ynghyd ag is-orsaf ac adeilad rheoli, llefydd caled cysylltiedig, trac mynediad newydd yn cysylltu i'r tyrbinau arfaethedig o'r tyrbinau presennol, iard adeiladu dros dro a lle troi ac isadeiledd arall sy'n berthnasol ar dir ger / Full application for the erection of two 4.6MW wind turbines with a maximum hub height of up to 59m, rotor diameter of up to 71m, and a maximum upright vertical tip height of up to 92.5m together with a substation and control building, associated hard-standings, a new access track connecting to the proposed turbines from the existing turbines, a temporary construction compound and turning area and other related infrastructure on land at**

**Ysgellog, Rhosgoch**



**Pwyllgor Cynllunio: 03/12/2014**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Ymweliad Safle

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ystyrir ei fod yn angenrheidiol i aelodau ymweld â'r safle i werthfawrogi maint a chyd-destun y tyrbin arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio.

Mae nifer o faterion a all fod yn rhai tyngedfennol ond sydd heb eu datrys fel a ganlyn:

- Lefelau sŵn.
- Modylu osgledau.
- Heneb Rhestredig
- Archeoleg

Disgwylir safbwyntiau'r ymgeisydd a'r ymgyngoreion ar y materion hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r ymgeisydd gyflwyno manylion technegol ynglŷn â'r camau lliniaru arfaethedig i'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â radar amddiffyn awyr er mwyn penderfynu a allai hynny fod yn destun amod cynllunio.

**1. Argymhelliad**

Ymweliad Safle

**6.3** Gweddill y Ceisiadau Remainder Applications


Rhif y Cais: **41C125B/EIA/RE** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Ynys Mon Wind Energy Ltd**

**Cais llawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kW - 900kW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lôn A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar dir yn / Full application for the erection of three 800kW - 900kW wind turbines with a maximum hub height of up to 55m, rotor diameter of up to 52m and a maximum upright vertical tip height of up to 81m, the improvements to the existing access to the A5025 road together with the erection of 3 equipment housing cabinets on land at**

**Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy**



**Pwyllgor Cynllunio: 03/12/2014**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (NJ)**

**Argymhelliad:**

Gohirio

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais yn cael ei gyflwyno fel cais llawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kW - 900kW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lôn A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2013 fe benderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ymweld â'r safle cyn gwneud ei benderfyniad. Ymwelwyd â'r safle ar 20 Rhagfyr.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2014 fe benderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ohirio gwneud penderfyniad ar y cais er mwyn derbyn ymatebion oedd ar ôl gan ymgynghorwyr ac i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd ac i roi amser iddynt ystyried.

Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac rydym bellach wedi ystyried ymateb a wnaed gan yr ymgeisydd. Mae CNC wedi gofyn am fanylion llawn am fesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer ystlumod i’w cyflwyno cyn penderfynu ar y cais ac fe ofynnwyd am y wybodaeth gan yr ymgeisydd.

Cafwyd manylion ychwanegol gan yr ymgeisydd ac ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, maent yn dderbyniol gydag amodau. Mae materion mewn perthynas â chyswllt TG i ysgol Llanddona bellach wedi’u datrys.. Yn y cyfamser, mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyfarwyddyd y dylid gohirio’r cais hyd oni fydd manylion boddhaol ynghylch Cynllun Rheoli Traffig wedi cael eu cytuno.

**Argymhelliad**

Gohirio